**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2014 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2 y prynhawn.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cyng. M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. P R Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. P W Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. P Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C Everett (Clerc a Swyddog Monitro); K Finch (Trysorydd); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P Claydon, R Simmons ac R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Brandrick (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G W Griffiths (Uwch Reolwr Datblygu); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau).

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. J M Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| L Roberts | Uwch Reolwr yr Ystafell Reoli a Pharhad Busnes |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 28 HYDREF 2013

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Prosiect y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru – roedd y Prif Swyddog Tân eisoes wedi rhoi gwybod i'r Aelodau am y prosiect tri cham, a rhoddodd y diweddaraf i'r Aelodau. Roedd yr adroddiad cyflawn wedi ei gyflwyno i'r Gweinidog, a'i rannu'n gyfrinachol â'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân. Cafodd yr Aelodau wybod bod Cadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru yn bryderus am yr adroddiad, ac roedd y Gweinidog wedi gofyn am gael y pryderon hynny yn ysgrifenedig. Caiff yr Aelodau ddiweddariad pellach yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth.

3.2 **PENDERFYNWYD cytuno bod y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân yn ymdrin â'r mater.**

4 MONITRO PERFFORMIAD

4.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am berfformiad yn nhri chwarter cyntaf y flwyddyn o 1 Ebrill 2013 hyd 31 Rhagfyr 2013. Ar gais yr Aelodau, roedd colofn oleuadau traffig ychwanegol wedi ei chynnwys ar y tablau perfformiad i ddangos y ffigwr cyfartalog dros y cyfnod olaf o dair blynedd, a chroesawyd hyn gan yr Aelodau.

4.2 Nodwyd y materion a ganlyn mewn perthynas ag amcan gwella 1 – sef atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi:

- cynnydd o 12% yn nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, ac mae'r ffigwr hefyd yn uwch na'r cyfartaledd am dair blynedd
- bu dwy farwolaeth, un ym mis Mai a'r llall ym mis Mehefin, ac roedd y Crwner wedi cadarnhau mai tanau damweiniol mewn cartrefi oedd i'w gyfrif am y ddwy
- bu mymryn o gynnydd yn nifer y tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt a lle'r oedd yno larwm mwg, ond cafwyd cynnydd hefyd yn nifer y cartrefi a oedd yn cael tân ond a oedd heb larwm mwg
- roedd 32% o archwiliadau diogelwch tân yn y cartrefi wedi eu cynnal yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad sy'n bartner inni, ac mae hyn yn uwch na tharged y Gwasanaeth, sef 25%.

4.3 Atgoffwyd yr Aelodau fod y tywydd yn tueddu i chwarae ei ran yn dylanwadu ar y ffigyrau perfformiad. Roedd cyfanswm y tanau wedi cynyddu o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2012-13, a hynny yn bennaf oherwydd fod nifer y tanau glaswellt 2013-14 wedi mwy na dyblu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan adlewyrchu'r tywydd gwlypach na'r cyfartaledd yn 2012-13 a'r gwanwyn/haf sychach yn 2013-14. Hefyd o ganlyniad i'r tywydd, bu gostyngiad o 36% yn nifer y galwadau gwasanaeth arbennig – yn ystod tri chwarter cyntaf y flwyddyn bu nifer sylweddol is o alwadau ynglŷn â llifogydd o'i gymharu ag yn 2012-13.

4.4 Er bod nifer y safleoedd annomestig wedi codi yng Ngogledd Cymru, da oedd nodi bod gostyngiad o 24% wedi bod yn nifer y tanau a ddigwyddodd ar safleoedd o'r fath, ac ystyrir bod hyn i'w briodoli'n rhannol i'r gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth gyda pherchnogion safleoedd.

4.5 Roedd y Gwasanaeth wedi mynd at lai o alwadau o ganlyniad i alwadau diangen o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2012-13. Fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer y galwadau diangen didwyll, ac efallai fod hyn oherwydd y cynnydd mewn cysylltiadau â Careline felly nid rhywbeth i'w wrthod oedd hyn.

4.6 I ateb cwestiwn gan un o'r Aelodau, cadarnhawyd bod y Gwasanaeth yn manteisio ar gyfle pan fo tân yn digwydd i gynnig archwiliadau diogelwch tân yn y cartref i'r rhai sy'n byw gerllaw. Cadarnhawyd hefyd bod pob datganiad i'r wasg yn cynnwys paragraff ynglŷn â ffyrdd i drefnu archwiliad diogelwch tân yn y cartref.

4.7 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

5 DIGWYDDIADAU O BWYS

5.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno yn dilyn cais gan yr Aelodau i gael rhagor o wybodaeth am ddigwyddiadau o bwys, ac yn arbennig yr amser a dreulir mewn digwyddiad a'r adnoddau a ddefnyddir. Roedd y digwyddiadau o bwys a fu yn ystod Rhagfyr 2013 ac Ionawr 2014 wedi eu cynnwys yn yr adroddiad, yn ogystal â straeon newyddion da yn nodi pryd y bu larymau mwg o gymorth yn rhoi rhybudd o dân. Croesawyd yr adroddiad gan yr Aelodau, ac roeddent o'r farn ei fod yn llawn gwybodaeth.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth, a gofyn am adroddiad tebyg i ddod ger eu bron ymhen chwe mis.**

6 AMCANION GWELLA 2014-15

6.1 Roedd yr adroddiad yn darparu crynodeb o'r ymateb i ymgynghoriad yr Awdurdod ar ei Amcanion Gwella ar gyfer 2014-15. Roedd yr ymgynghoriad ar gael ar wefan yr Awdurdod, ac fe'i anfonwyd at amrywiaeth o randdeiliaid lleol a chenedlaethol a sefydliadau sy'n bartneriaid inni, a darparwyd dolenni iddo drwy gyfryngau cymdeithasu.

6.2 Fel rhan o'r broses ymgynghori, roedd y Prif Swyddog Tân, y Dirprwy Brif Swyddog Tân a'r Cadeirydd wedi mynychu cyfarfodydd is-bwyllgorau ymhob un o'r chwe chyngor i roi cyflwyniad ac i drafod yr ymgynghoriad yn fanylach. Dywedodd y Clerc i'r cyflwyniadau gael derbyniad da iawn, ac er nad oedd pob cyngor wedi darparu ymateb ysgrifenedig, fe gafwyd adborth yn y cyfarfodydd; a chadarnhawyd hyn gan y Trysorydd. Y Cyng. Dunn oedd wedi cadeirio cyfarfod Sir y Fflint ac ategodd ef eiriau'r Clerc; teimlai yntau y byddai cyflwyniad blynyddol yn beth i'w groesawu.

6.3 Esboniodd y DBST fod wyth ymateb ysgrifenedig wedi dod i law, ac roeddent yn adlewyrchu cytundeb cyffredinol gyda'r tri amcan gwella a gynigid. Roedd un ymateb yn beirniadu'r defnydd o'r term 'vulnerable people' ac wedi cynnig ymadroddion amgen. Nodwyd bod y term yn golygu pethau gwahanol i wahanol bobl, ac awgrymodd y Dirprwy Gadeirydd y term

'people at risk from fire'. Esboniodd y PST i'r Aelodau pam fod y Gwasanaeth yn defnyddio'r term 'vulnerable' ac mai canlyniad ymchwil a wnaed yn 2006 oedd hyn, pan sefydlwyd Tasglu'r Prif Swyddog Tân. Ar ôl siarad â gwahanol sefydliadau ac asiantaethau eraill, daeth yn amlwg fod gwahanol lefelau o risg ac iddynt hwy roedd i'r term 'vulnerable' drothwy llawer uwch. Fodd bynnag, daeth y Tasglu i'r casgliad fod pobl, o ran bod â risg o dân yn eu cartref, yn 'vulnerable' o ganlyniad i'w ffordd o fyw a'u hamgylchiadau byw, ac felly bernid bod y term yn briodol gan ei fod yn cynnwys carfan ehangach o bobl y mae'r Gwasanaeth yn ceisio eu helpu. Atgoffwyd yr Aelodau fod adroddiad Tasglu'r Prif Swyddog Tân yn nodi saith o nodweddion allweddol sy'n cyfrannu at farwolaethau damweiniol mewn cartrefi, a bod pob un o'r 10 person a fu farw yn 2006 yn meddu ar dri o blith y saith o nodweddion hynny. Nododd yr Aelodau esboniad y PST, a gofyn am gynnwys hynny yn y Cynllun Gwella. Cadarnhawyd y bydd cyfeiriad yn y cynllun at y saith nodwedd allweddol er mwyn egluro'r defnydd o'r term 'vulnerable'.

6.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo**

**(i) llunio drafft terfynol o Gynllun Gwella 2014-15 ar sail y cynigion sydd yn yr ymgynghoriad drafft a chan gynnwys esboniad ychwanegol o'r canlynol: a) ystyr 'vulnerable' wrth gyfeirio at danau yn y cartref; a b) penderfyniad yr Awdurdod ynglŷn â'i gyllideb ar gyfer 2014-15;**

**(ii) y bydd drafft terfynol Cynllun Gwella 2014-15 yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub llawn yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2014 i'w gymeradwyo, ac yna ei gyhoeddi cyn diwedd Mawrth 2014.**

7 AELODAETH GWEITHGOR Y CYNLLUN GWELLA

7.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau gytuno ar aelodaeth Gweithgor y Cynllun Gwella ar gyfer 2014-15.

7.2 Fel yr oedd y Clerc wedi dweud eisoes, bydd angen i'r gweithgor drafod y cynlluniau o ran y gyllideb ar gyfer y dyfodol yn ogystal â'r amcanion gwella, a chan fod rhai aelodau yn dal yn gymharol newydd i waith yr Awdurdod, ystyrid mai doeth fyddai mynd ati eto i wahodd pob aelod o'r Panel Gweithredol i fod yn aelodau o weithgor y Cynllun Gwella. Bydd cyfarfodydd y gweithgor yn rhoi cyfle i'r aelodau a'r swyddogion edrych ar syniadau a gwybodaeth mewn cyfarfodydd anffurfiol cyn gwneud awgrymiadau'n ffurfiol i'r Panel Gweithredol.

7.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) cytuno mai aelodaeth lawn y Panel Gweithredol fydd aelodaeth Gweithgor y Cynllun Gwella;**

**(ii) nodi dyddiadau Gweithgor y Cynllun Gwella fel a ganlyn:**
**24 Chwefror 2014 2pm;**
**31 Mawrth 2014 2pm;**
**12 Mai 2014 12pm (cyn cyfarfod y Panel Gweithredol).**

8 STRATEGAETH ADNODDAU GWEITHREDOL (IONAWR 2014 – MAWRTH 2015)

8.1 Roedd yr adroddiad yn briffio'r Aelodau ynglŷn â strategaeth adnoddau gweithredol y Gwasanaeth am y cyfnod rhwng Ionawr 2014 a Mawrth 2015.

8.2 Atgoffodd y PSTC Simmons yr Aelodau am y penderfyniadau a wnaeth yr Awdurdod yn ôl yn Rhagfyr 2010 pan gytunodd yn unfrydol i rewi'r gyllideb ar £32 miliwn am dair blynedd; roedd hyn yn gofyn am £2.45 miliwn o arbedion. Cafodd strategaeth ariannol ei chreu ar gyfer 2011 – 2014, a hynny ar sail cyfres o egwyddorion y cytunodd yr Aelodau arnynt ac a oedd yn cynnwys lledaenu'r lleihad yn y gyllideb yn hafal dros y tair blynedd a lliniaru'r risg o ddiswyddo gorfodol. Cadwyd at y strategaeth, a gwnaed yr arbedion angenrheidiol.

8.3 Bydd y strategaeth adnoddau gweithredol newydd yn galluogi'r Gwasanaeth i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth ymateb brys a hwnnw'n broffesiynol a chydnerth, ac mae'n cynnwys cynigion ynglŷn â recriwtio. Cafodd yr Aelodau wybod am y math newydd o gytundeb sydd ar fin cael ei gyflwyno, ac a fydd yn rhoi'r opsiwn i ddiffoddwyr tân presennol y system RDS wneud cais am swyddi diffoddwyr tân i weithio 21 awr yr wythnos. Rhagwelir y bydd y contract hwn yn gwella cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i ddiffoddwyr tân y system RDS oherwydd bydd yn cyfyngu llai arnynt a byddant yn gwybod beth fydd eu horiau o flaen llaw.

8.4 Nododd yr Aelodau fod gan y Gwasanaeth broffil sy'n heneiddio, ac y bydd y strategaeth adnoddau yn galluogi'r Gwasanaeth i greu cyfleoedd cyflogaeth ieuenctid drwy brentisiaethau diffodd tân. Roedd y Cyng. R Davies yn gefnogol iawn i brentisiaethau, ac esboniodd y PSTC Simmons y bydd y Gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a cholegau i gael rhaglen cyfranogiad ieuenctid a phrofiad gwaith yn ei lle i'r rhai sy'n 18 mlwydd oed a throsodd. Dywedodd y DBST mai stori newyddion da oedd hon gan fod GTAau eraill yn diswyddo pobl ond fod GTA Gogledd Cymru am gynnig swyddi wedi eu diogelu ar gyfer diffoddwyr tân y system RDS a chynnig prentisiaethau i bobl ifanc.

8.5 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

9 Y BROSES BENODI I SWYDD PRIF SWYDDOG TÂN CYNORTHWYOL

9.1 Cyflwynodd y PST yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y trefniadau ar gyfer recriwtio i swydd Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, un o'r ddwy swydd wag a ddisgwylir. Yn unol â phob penodiad i'r uwch dîm rheoli, bydd y penodiad hwn yn un gan yr Aelodau, a chynhelir y cyfweliadau sy'n cynnwys aelodau ar 5ed Mawrth. Bydd y panel penodi yn cynnwys cynrychiolydd o bob cyngor, fel a ganlyn.

Meirick Lloyd Davies (Cadeirydd) (Sir Ddinbych)
Peter Lewis (Dirprwy Gadeirydd) (Conwy)
Lewis Davies (Ynys Môn)
Geoff Lowe (Wrecsam)
Hilary McGuill (Sir y Fflint)
W Tudor Owen (Gwynedd)

9.2 Nodwyd bod y broses ddethol hefyd yn cynnwys y Prif Swyddog Tân, y Dirprwy Brif Swyddog Tân, y Trysorydd a'r Clerc.

9.3 **PENDERFYNWYD nodi'r broses, a chymeradwyo'r aelodaeth fel y nodir uchod.**

10 LLYTHYR ASESIAD GWELLA

10.1 Roedd Ron Price o Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol i gyflwyno'r llythyr asesiad gwella i'r Aelodau. Roedd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gadarnhaol yn ei sylwadau, a chadarnhaodd bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur o ran adrodd ynghylch gwelliannau.

10.2 Dywedodd Mr Price fod modd i'r Awdurdod gryfhau ei ddulliau adrodd ynghylch gwella drwy ddefnyddio rhagor o ddata cymharol. Yn y cyfarfod diwethaf roedd y Cyng. Lewis wedi gofyn gyda phwy y dylai'r Awdurdod ei gymharu ei hun a pha fath o wybodaeth y dylid ei chymharu. Dywedodd Mr Price fod y canllawiau yn benodol ynglŷn â'r awdurdodau gwella, gan gynnwys y data cymharol, ond nad oedd yn rhagnodi sut y dylai'r sefydliad ei gymharu ei hunain ag eraill. Roedd Mr Price yn ymwybodol fod Cyd-gyngor yr NIC wedi trafod y mater, a'i fod o'r farn y gallai'r Awdurdod ddefnyddio data cymharol mewn sawl maes eang i adrodd y naratif.

10.3 Roedd awgrymiadau eraill ar gyfer gwella yn cynnwys sicrhau bod yr adroddiad asesu perfformiad yn cael ei hyrwyddo a'i gyhoeddi'n eang, a'i fod yn gwahodd mewnbwn gan y cyhoedd ynglŷn â'r asesiad. Roedd y Clerc o'r farn mai offeryn defnyddiol a mwy beirniadol ar gyfer yr Awdurdod yw'r asesiad blynyddol o berfformiad, ac y bydd y cyhoedd yn ymwybodol iawn o berfformiad y Gwasanaeth pan fo'n effeithio arnyn nhw.

10.4 Dywedodd y Cyng. Anne Evans ei bod wedi ei syfrdanu ers ymuno â'r Awdurdod am yr wybodaeth o safon uchel sy'n cael ei darparu ymhob cyfarfod er mwyn i'r Aelodau allu gwneud penderfyniadau a phenderfynu a yw'r Awdurdod yn cael ei reoli mewn modd proffesiynol a diogel. Canmolodd y Gwasanaeth am barhau i reoli ei fusnes dyddiol yn ogystal â'r gweithredu diwydiannol a'r llifogydd yn ddiweddar. Teimlai'r Cyng. Evans fod y pwyntiau a godwyd gan yr Archwilydd yn ddilys ond eto'n rhai bychain iawn, ac roedd yn hyderus y bydd yr Awdurdod yn ymateb i'r her.

10.5 Ailadroddodd Mr Price yr agweddau cadarnhaol ar y llythyr mewn perthynas â chydymffurfiaeth, gan obeithio y byddai'r awgrymiadau ynglŷn â gwella yn gymorth i'r Awdurdod wella'n barhaus yn y dyfodol.

10.6 **PENDERFYNWYD derbyn y Llythyr Asesiad Gwella, a nodi y bydd Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer yr Awdurdod yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd Mawrth 2014.**

11 ADBORTH Y COMISIYNYDD AR ADRODDIAD MONITRO'R CYNLLUN IAITH GYMRAEG

11.1 Cyflwynodd y PSTC Fairhead yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am adborth Comisiynydd y Gymraeg ar Adroddiad Monitro'r Gwasanaeth ar y Cynllun Iaith Gymraeg 2012-13.

11.2 Roedd y Comisiynydd wedi croesawu nifer o agweddau ar waith yr Awdurdod mewn perthynas â'r Gymraeg, ac roedd wedi sôn yn arbennig am gryno-ddisg lefel 3 newydd y Gwasanaeth i'w ddefnyddio gan ddysgwyr y Gymraeg a'r ffaith fod cynnydd wedi bod yn nifer y staff sy'n cael eu hyfforddi i lefelau uwch o sgiliau Cymraeg. Nodwyd bod y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru, wrth baratoi ar gyfer y safonau statudol sydd i gael eu cyhoeddi yn y misoedd nesaf, eisoes wedi dechrau cydweithio â'i gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl barod i gyflawni'r safonau pan fyddant wedi eu cyhoeddi.

11.3 **PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Cynllun Iaith Gymraeg, ac ymrwymiad y Gwasanaeth i barhau i fonitro cynnydd.**

12 BIL GWASANAETHAU CYHOEDDUS (GWEITHLU) (CYMRU): YMATEB I YMGYNGHORIAD

12.1 Cyflwynodd y PSTC Simmons yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am ddogfen ymgynghorol Llywodraeth Cymru 'Cefnogi Gweithlu'r Gwasanaethau Cyhoeddus drwy Arweiniad ar y Cyd a Deddfwriaeth': Ymgynghoriad ynghylch Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Gweithlu) Cymru. Dyddiad cau'r ymgynghoriad oedd diwedd Chwefror, ac felly gofynnwyd i'r Aelodau ddirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân i gymeradwyo ymateb yr Awdurdod.

12.2 Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn am y Bil arfaethedig a fyddai, i ddechrau, yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar sawl mater sy'n ymwneud â gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus, a hefyd yn darparu ar gyfer cynyddu'r rhestr hon yn y dyfodol:

12.3 Esboniodd y PSTC Simmons fod pryderon difrifol, o ystyried hyd a lled y pwerau sydd yn y Bil, ynglŷn â cholli annibyniaeth sefydliadau, hyblygrwydd ac atebolrwydd lleol. Mae Crynodeb Gweithredol yr ymgynghoriad yn nodi y byddai'r pŵer a roddir gan y Bil yn cael ei ddefnyddio gan Weinidogion Cymru yn arbennig i gefnogi cytundebau a wneir yng Nghyngor Partneriaeth y Gweithlu (CPG). Nododd yr Aelodau nad oes gan yr Awdurdod sedd ar y CPG ond ei fod yn cael ei gynrychioli gan y Cyng. Tudor Davies o Wasanaeth Tân ac Achub y De.

12.4 Roedd y Cadeirydd wedi bod mewn cyfarfod o Gyngor Cyswllt Cymru, ac roedd y Bil wedi cael ei drafod yno. Y cytundeb barn yn y cyfarfod hwnnw oedd gwrthod y Bil gan nad oedd yn galluogi arloesedd lleol a chytundeb, sef pethau a oedd yn hanfodol yn yr amgylchiadau ariannol sy'n bodoli ar hyn o bryd. Cytunodd y Cyng. W R Owen gyda'r Cadeirydd, ac roedd yn siomedig nad oedd yr Awdurdod yn cael ei gynrychioli ar y CPG.

12.5 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r pryderon "difrifol" a godwyd mewn perthynas â Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Gweithlu) (Cymru) Drafft;**

**(ii) cytuno y bydd ymateb yr Awdurdod yn cael ei gymeradwyo drwy'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân oherwydd y dyddiad cau ar gyfer ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Bil.**

13 PROTOCOL CYSYLLTIADAU AELODAU/SWYDDOGION

13.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau ystyried protocol cysylltiadau aelodau/swyddogion ar gyfer yr Awdurdod. Mae'r cod llywodraethu lleol yn cynnwys egwyddorion a safonau, gyda'r nod o gynorthwyo'r Awdurdod i fod yn atebol am gynnal busnes yn gywir. Un o'r egwyddorion llywodraethu da a fabwysiadwyd yw 'Bydd y cynghorwyr a'r swyddogion yn cydweithio i gyflawni amcanion ar y cyd, a bydd diffiniadau eglur o'u rolau a'u gorchwylion'. Roedd y protocol yn rhestru'r arferion da sy'n bodoli o ran cysylltiadau rhwng aelodau a swyddogion yn yr Awdurdod.

13.2 Cadarnhaodd y Cyng. Dunn fod y Pwyllgor Safonau wedi trafod y protocol yn ei gyfarfod ar 29ain Ionawr, ac wedi ei argymell i'r Panel Gweithredol.

13.3 **PENDERFYNWYD argymell y polisi cysylltiadau aelodau/swyddogion i'r Awdurdod i'w gymeradwyo.**

14 TREFN DATRYS YN LLEOL

14.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau ystyried Trefn Datrys yn Lleol ar gyfer cwynion am Aelodau. Nodwyd mai canlyniad oedd hyn i Ganllawiau'r Ombwdsmon ar God Ymddygiad Aelodau Awdurdodau Lleol yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn gyntaf yn Ebrill 2010, ac a oedd yn dweud ei fod yn disgwyl i awdurdodau lleol weithredu prosesau datrys yn lleol er mwyn ymdrin â chwynion lefel isel a wneir gan aelod yn erbyn cyd-aelod.

14.2 Nodwyd y dylai cam 2 y broses gynnwys y dirprwy glerc, a newidiwyd hyn yn yr adroddiad i'w gyflwyno i'r cyfarfod o'r Awdurdod ym mis Mawrth.

14.3 Cadarnhaodd y Cyng. Dunn fod y Pwyllgor Safonau wedi trafod y protocol yn ei gyfarfod ar 29ain Ionawr, ac wedi ei argymell i'r Panel Gweithredol.

14.4 **PENDERFYNWYD argymell y drefn i'r Awdurdod.**

15 INDEMNIADAU AR GYFER AELODAU A SWYDDOGION

15.1 Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth am gostau yswiriant indemniad, ac yn gofyn i'r Aelodau benderfynu ar y ffordd ymlaen.

15.2 Roedd sawl opsiwn ar gael, a phetai'r Awdurdod yn dymuno cael yswiriant indemniad byddai'r gost tua £1000 y flwyddyn. Fodd bynnag, gan nad yw'r Awdurdod erioed wedi cael achos o'r fath yn ei hanes, gallai'r Aelodau benderfynu cael polisi indemniad yn ei lle, a chap o £20,000 arno, a phetai ei angen fyth byddai'n cael ei dalu o gronfa gyffredinol yr Awdurdod.

15.3 Cadarnhaodd y Cyng. Dunn fod y Pwyllgor Safonau wedi trafod y protocol yn ei gyfarfod ar 29ain Ionawr, ac wedi ei argymell i'r Panel Gweithredol.

15.4 **PENDERFYNWYD cynnig bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn gwneud y canlynol:**

**(i) rhoi indemniad i ymorol am y costau cyfreithiol o amddiffyn cŵyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelod wedi torri'r cod ymddygiad ac na fydd unrhyw gostau cyfreithiol yn cael eu talu mewn perthynas â chŵyn a gaiff ei thrin dan y drefn datrys yn lleol;**

**(ii) os ceir bod yr aelod wedi torri'r cod**

**a. a'i fod yn cael ei ddiarddel neu ei atal; neu**
**b. ei fod wedi torri'r cod yn fwriadol neu'n ddi-hid (ni waeth os oes unrhyw gosb)**

**rhaid ad-dalu i'r awdurdod unrhyw arian, a'r swm i gyd, a dalwyd dan yr indemniad, ac os bydd yr amgylchiadau a restrir yn isbaragraffau 'a' neu 'b' yn codi, ac:**

- **na ofynnwyd am unrhyw arian ac na thalwyd unrhyw arian dan yr indemniad; NEU**
- **talwyd rhywfaint o'r costau cyfreithiol ond nid y cyfan**

**ni wneir unrhyw daliadau neu ni wneir unrhyw daliadau pellach (yn ychwanegol at ofyn am ad-dalu unrhyw daliadau).**

**(iii) os ceir yr aelod yn euog o dorri'r cod ac na roddir unrhyw gosb neu os yw'r aelod yn cael ei geryddu, gall yr Awdurdod ofyn am ad-dalu cyfran o unrhyw arian a dalwyd dan yr indemniad. Os**

- **na ofynnwyd am unrhyw arian ac na thalwyd unrhyw arian dan yr indemniad; NEU**
- **talwyd rhywfaint, ond nid y cyfan, o'r costau cyfreithiol**

**gall yr Awdurdod ddewis talu cyfran yn unig o gostau'r aelodau, a gall ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gostau a dalwyd yn uwch na'r gyfran honno gael eu had-dalu;**

**iv) bydd costau unrhyw hawliadau dan yr indemniad wedi eu cyfyngu i £20,000, a chânt eu talu o'r gronfa gyffredinol.**

Cyn cloi rhan I o'r cyfarfod, atgoffodd y Cadeirydd fod PSTC Paul Claydon yn mynd i ymddeol ganol fis Chwefror, a thalodd deyrnged i gwaith y PSTC Claydon i'r Awdurdod ar nifer o faterion sensitif yn y gorffennol, ac yn fwy diweddar ar brosiect tân ac achub Wrecsam. Diolchodd y Cadeirydd i'r PSTC Claydon a dymuno'n dda iddo ef a'i deulu i'r dyfodol.

RHAN II - Yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gofynnwyd i'r wasg a'r cyhoedd adael y cyfarfod tra'r oedd yr eitem fusnes ganlynol(eitemau busnes canlynol) yn cael ei hystyried oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinir ym Mharagraff(au) 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu iddynt.

Dim ond y swyddogion a ganlyn a arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar yr agenda: Y Prif Swyddog Tân, y Clerc, y Trysorydd, y Dirprwy Brif Swyddog Tân, Swyddog Cyswllt yr Aelodau a'r ddau gyfieithydd.

16 PROSIECT TÂN AC AMBIWLANS WRECSAM

16.1 Cafodd yr Aelodau ddiweddariad am brosiect tân ac ambiwlans Wrecsam, a nodwyd y byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth.

16.2 **PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad.**

Ar yr adeg hon, gadawodd y Cynghorwyr Anne Evans, Paul Pemberton a Brian Dunn y cyfarfod.

17 GWEITHREDU DIWYDIANNOL

17.1 Rhoddodd y PST y diweddaraf i'r Aelodau ynglŷn â'r datblygiadau mewn perthynas â gweithredu diwydiannol Undeb yr FBU ar fater diwygio pensiynau. Roedd y cyfnod diwethaf o streicio wedi digwydd ar 2il Ionawr, ac roedd y trafodaethau'n parhau rhwng y Gweinidog Tân yn Lloegr, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth yng Nghymru ac Undeb yr FBU.

17.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**